**EPT-04-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 7 Mawrth 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

| | |
|---|---|
| Bob Macey (eitem 2) | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |
| Tom Cassidy (eitem 3) | Prif Weithredwr, Cadw |
| Richard Avent (eitem 3) | Pennaeth yr Arolygwyr, Cadw |
| Jean Booker (eitem 3) | Pennaeth Gweinyddiaeth, Cadw |
| Douglas Hogg (eitem 3) | Prif Bensaer, Cadw |
| Andrew Hood (eitem 3) | Pennaeth Cyflwyno, Cadw |
| Denzil Jones (eitemau 4 a 5) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Jane Large (eitem 4) | Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Chris Owen (eitem 5) | Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| ***Yn bresennol:*** | |
| Denys Morgan (eitemau 4 a 5) | Ymgynghorydd Arbenigol |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Juliette Selby | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod, a hysbysodd yr aelodau o’r newidiadau canlynol i’r rhaglen waith:

- ni fyddai’r adroddiad cynnydd ar Adolygiad Rheolaeth Ariannol a Pholisi Asiantaeth yr Amgylchedd ar gael erbyn 21 Mawrth, a byddai’n cael ei drafod y tymor nesaf;
- câi opsiynau o ran etholiadau uniongyrchol i’r Parciau Cenedlaethol eu trafod ar 9 Mai ac nid 4 Ebrill.

0.2 Cytunodd y pwyllgor i ohirio archwiliad blynyddol y Gweinidog (a raglennwyd ar gyfer 4

Ebrill) tan dymor yr haf, gan nad oedd yr adroddiad perfformiad y câi'r sesiwn archwilio ei seilio arno wedi'i gyhoeddi eto.

0.3 Câi'r cyfarfod ar 4 Ebrill ei gynnal yng Nghaerdydd, nid Aberhonddu fel a hysbysebwyd yn flaenorol. Yr oedd dwy ran o dair o Bowys yn ardal a oedd wedi'i heintio â chlwy'r traed a'r genau, a byddai angen i rai aelodau o'r cyhoedd deithio o'r ardaloedd hyn i ddod i'r cyfarfod. Bellach byddai'r pwyllgor yn cwrdd yn y canolbarth yn nhymor yr haf.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion, a datganiadau o fuddiant**

1.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5, a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-04-01 (p 1)

2.1 Cyn trafod yr adroddiad, atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod blaen gopi o newidiadau arfaethedig OFWAT i drwydded Dwr Cymru wedi'i gylchredeg i aelodau'r pwyllgor, ynghyd â nodyn wedi hynny oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn awgrymu y dylai'r mater fynd rhagddo heb drafodaeth swyddogol bellach gan y pwyllgor.

2.2 Gan fod y pwyllgor (ynghyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd) wedi datgan ei farn ar egwyddorion cynigion Glas Cymru, ac mai newidiadau technegol oedd y newidiadau gan mwyaf, cytunwyd i'r ffordd ymlaen a awgrymwyd gan y Gweinidog.

2.3 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y materion canlynol:

- Ynni o'r Môr – erbyn hyn yr oedd dogfen ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i rhyddhau;

- Cynhadledd Eiddo Cymru – rhoddodd y Gweinidog y brif araith yng Nghynhadledd Eiddo gyntaf Cymru a gynhaliwyd ar 20 Chwefror;

- yr A55 – erbyn hyn yr oedd y ffordd ar draws Ynys Môn ar agor ac yn gwbl weithredol, ac yr oedd seremoni agor ffurfiol wedi'i rhaglennu ar gyfer 10 Ebrill yng Nghaergybi (os bydd clwy'r traed a'r genau yn caniatáu);

- Datblygu Cynaliadwy – yr oedd y Gweinidog wedi agor seminar i hyrwyddo cyfraniad Cymru i Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Ewrop yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel ar 5 Mawrth.

2.4 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Datblygu cynaliadwy - cafodd ‘Cynnyrch Mewnwladol Crynswth priodol’ ei awgrymu fel dangosydd posibl i ddatblygu cynaliadwy, a allai fesur y cynnydd yng nghynhyrchiant yr economi yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd. Byddai’r Gweinidog yn cwrdd â chroestoriad o Aelodau’r Cynulliad i weithio ar y mecanweithiau ar gyfer sefydlu datblygu cynaliadwy fel ystyriaeth brif ffrwd ar draws holl bolisïau a rhaglenni’r Cynulliad Cenedlaethol;

- Ynni o’r Môr – mynegwyd peth pryder ynglyn â rôl gyfyngedig awdurdodau lleol ers i’r broses gydsynio newydd roi rheolaeth i’r Adran Masnach a Diwydiant. Eglurodd y Gweinidog y gallai llawer o gynigion effeithio ar ardal a wasanaethir gan sawl awdurdod. Byddai’r Adran Masnach a Diwydiant yn cynnal gwasanaeth dan-yr-unto i’r DU, a byddid yn ystyried pa un y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol ymgymryd â'r rôl hon yng Nghymru;

- Ynni Adnewyddadwy – teimlid y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol annog prosiectau ynni adnewyddadwy, a chroesawai’r aelodau y ffaith bod y Gweinidog yn ymgynghori’n eang ynghylch y meini prawf galw-i-mewn sy’n bodoli ar hyn o bryd ym maes cynllunio. Câi seminar ar ynni adnewyddadwy ei gynnal ym mis Mai ar gyfer cynrychiolwyr o’r diwydiant, aelodau’r pwyllgor ac aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd, a oedd yn cynnal adolygiad o ynni adnewyddadwy. Byddai’r Cadeirydd yn trafod cyfraniad y pwyllgor tuag at yr adolygiad hwn gyda Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd;

- Tir wedi’i ddifwyno – yr oedd yna bryder ynglyn â maint cyfraniad yr awdurdodau lleol tuag at yr ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau. Cadarnhawyd yr ymgynghorwyd â phob awdurdod lleol a bod y swyddogion wedi cynnal trafodaeth gyda’r awdurdodau ar y cyd. Cynigiodd y Gweinidog gynnal seminar i’r aelodau.

***Pwyntiau Gweithredu***

- *Y Cadeirydd i drafod cyfaniad y pwyllgor tuag at yr adolygiad o ynni adnewyddadwy gyda Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.*

**Eitem 3: Cadw – Cynllun Corfforaethol a Thargedau Strategol** - EPT-04-01 (p 2)

3.1 Cyflwynodd Tom Cassidy y papur, a geisiai farn y pwyllgor am gynllun corfforaethol a thargedau drafft Cadw ar gyfer 2001-02. Yr oedd y pwyllgor wedi cefnogi cynnydd mewn taliadau mynediad am y flwyddyn, pan ymgynghorwyd ag ef yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd

2000.

3.2 Nodwyd y byddai clwy’r traed a’r genau yn cael effaith ar allu Cadw i gwrdd â’i dargedau o ran gwaith cadwraeth a chynnal a chadw, a rhestru ac amserlennu, gan fod henebion wedi’u cau a bod y gweithlu wedi ei dynnu allan o ardaloedd gwledig. Câi'r targedau eu hadolygu yn y cyfnod monitro hanner-tymor yn yr hydref.

3.3 Ymdriniwyd â’r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Targedau – pa un a oedd rhai targedau yn ddigon ymestynnol. Nodwyd y byddai dau darged (3 a 6) yn cael eu cynyddu. Yr oedd yn anodd cynyddu’r targed ar ddatrys ceisiadau am grant adeiladau hanesyddol (80% o fewn 17 wythnos), oherwydd y ddibyniaeth ar rôl y Cyngor Adeiladau Hanesyddol, sy’n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn, wrth wneud penderfyniadau;

- Y broses gosod targedau – yr oedd targedau wedi deillio o adolygiad diwethaf Cadw, er eu bod wedi mynd yn fwy llym dros amser. Câi targedau eu hailasesu yn ystod yr adolygiad pum mlynedd o Cadw fel Asiantaeth Weithredol sydd i’w gynnal ym mis Medi;

- Partneriaeth – yr oedd yr angen am i awdurdodau lleol sefydlu arbenigedd a sicrhau cysondeb yn eu dulliau gweithredu yn cael sylw;

- Cymunedau – yr oedd Cadw wedi sefydlu cysylltiadau gyda chymunedau lleol ac yr oeddynt yn darparu digwyddiadau i ateb anghenion lleol a dathliadau cymunedol;

- Rhestru Contractwyr – yr oedd rhai ond nid y cyfan wedi’u lleoli yng Nghymru. Gosodwyd contractau yn unol â'r rheolau caffael cyhoeddus, ac er y byddai gan gwmnïau lleol fantais yn aml ar gostau a phris, nid oedd hyn yn digwydd bob amser. Ni chaniateir dethol contractwyr am resymau lleoliad yn unig;

- Twristiaeth – nid yw Cadw ar hyn o bryd yn marchnata cyrchfannau, er bod Bwrdd Croeso Cymru ac eraill yn cynrychioli Cadw mewn digwyddiadau masnach y tu allan i Gymru. Yr oedd Cadw hefyd wedi manteisio ar gloddiadau archeolegol yng Nghymru a oedd wedi’u darlledu, i godi proffil eu hystâd. Adfeilion wedi’u cyfnerthu yw holl safleoedd Cadw bron, heb botensial i’w defnyddio fel llety – eithriad yw Stack Square ym Mlaenafon – ond yr oedd yna nifer o adeiladau Fictoraidd gan gynnwys cestyll gwneud ledled Cymru y gellid eu hailwampio fel llety i dwristiaid, a byddai rhai’n gymwys i gael grant gan Cadw tuag at waith atgyweirio hanesyddol;

- Themâu a Mynediad – yr oedd amcanion Cadw yn ddigon eang i adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i gynaliadwyedd, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol. Trafodwyd mynediad i’r anabl fel enghraifft. Fel cyfraniad tuag at gyflwyno

amgylchedd hanesyddol Cymru a'i roi o fewn cyrraedd i bobl yr oedd Cadw wedi cynhyrchu llyfryn ar fynediad i'r anabl i henebion, mewn ymgynghoriad ag Anabledd Cymru. Ar ôl trafodaethau gydag Anabledd Cymru a'r Comisiwn Hawliau Anabledd, byddai cyn bo hir yn mynd allan i ymgynghori ynglyn â llyfryn a roddai gyngor ar ffyrdd o addasu adeiladau rhestredig er mwyn cyflawni amcanion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

***Gweithredu:***

- *Tom Cassidy i roi gwybodaeth bellach i John Griffiths ar nifer yr adeiladau rhestredig gradd 1 a 2 bob blwyddyn, a'r newid yn statws adeiladau rhestredig o radd 2 i 1.*

**Eitem 4: Adolygiad o Bolisi Trafnidiaeth Gyhoeddus: trafod y pynciau** – EPT-03-01 (p 4) – gohiriwyd o'r cyfarfod diwethaf, EPT-04-01 (p 3) ac EPT-04-01 (p 4)

4.1 Eglurodd y Cadeirydd fod y papur a ohiriwyd o'r cyfarfod diwethaf yn pwyso a mesur y pynciau a oedd wedi dod i'r amlwg o'r adolygiad, ac yn ceisio barn y pwyllgor ynglyn â blaenoriaethau. Cyflwynodd Denzil Jones a Denys Morgan eu papurau, a oedd yn awgrymu blaenoriaethau o ran gwella ac integreiddio gwasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy.

4.2 Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd yr aelodau y blaenoriaethau canlynol:

- Dynodi gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus;
- Dynodi'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd rhag gwireddu'r weledigaeth;
- Asesu pa mor dda y mae'r cyrff a'r consortia sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gweithredu;
- Dadansoddi strwythurau trefniadol rhanbarthol amgen (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig);
- Gosod targedau a mesur gwelliannau.

4.3 Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r adolygiad ystyried hefyd:

- Annog newid moddol oddi wrth y car preifat i drafnidiaeth gyhoeddus (yn enwedig ar gyfer siwrneiau i'r gwaith);
- A yw trafnidiaeth gyhoeddus yn fforddiadwy;
- Y dylai gwasanaethau fod o fewn cyrraedd;
- Hwylustod;
- Cyfnewidiadau;
- Tocynnau am brisiau gostyngol i bobl iau;
- Darparu gwybodaeth a thocynnau sy'n pontio gwahanol foddau;
- Materion yn ymwneud â bod yn saff a diogel;
- Cerdded, beicio a marchogaeth ceffylau fel dewisiadau yn lle'r car.

4.4 Wrth grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor bellach yn nodi safonau ansawdd i drafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n golygu y gellir mesur gwelliannau, ac asesu potensial y strwythurau trefniadol sy'n bodoli eisoes i wireddu gwelliannau o'r fath. Gan edrych i'r tymor hwy, byddai'r pwyllgor yn dadansoddi strwythurau trefniadol rhanbarthol amgen, cyn gwneud unrhyw argymhellion ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r strwythurau presennol.

4.5 Byddai'r pwyllgor yn ystyried ymestyn amserlen yr adolygiad, pe bai angen sesiynau ychwanegol.

**Eitem 5: Grant Trafnidiaeth – trafod meini prawf 2002-03** - EPT-04-01 (p 5)

5.1 Ceisiodd y Gweinidog sylwadau'r Aelodau ar y categorïau o geisiadau Grant Trafnidiaeth sydd i'w gwahodd am gefnogaeth ariannol yn 2002-03. Yr oedd £5m ar gael i geisiadau newydd yn 2002-03; yr oedd £53.5m eisoes wedi'i ddyrannu drwy raglen fuddsoddi bum mlynedd y Gweinidog a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

5.2 Cefnogi'r pwyllgor y ffordd yr oedd y Gweinidog yn ymdrin â'r mater, ond gofynnwyd am i fwy o waith gael ei wneud at y materion canlynol:

- Sicrhau bod ceisiadau am Grant Trafnidiaeth yn llwyr gefnogi amcanion y Cynulliad Cenedlaethol ar gynaliadwyedd, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol;
- Cynigion i sefydlu mwy o gyd-drefnu rhwng Llwybrau Diogel i'r Ysgol, awdurdodau lleol a phrosiectau diogelwch cefnffyrdd.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 14 Chwefror** – EPT-03-01 (min)

6.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 21 Mawrth yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2001**